**Pymthegfed Cyfarfod o'r Grŵp Ecosystemau Ucheldiroedd**
**Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig**
**Aberystwyth**
**17 Tach 2014**

**Presennol:** Charles Morgan (RSPB), Jan Sherry (Cyfoeth Naturiol Cymru), Mariecia Fraser (Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig), Steve Chambers (Llywodraeth Cymru), Dafydd Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Julia Korn (Cyfoeth Naturiol Cymru), Joe Daggart (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Peter Dennis (Prifysgol Aberystwyth), Dafydd Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Philip Hollington (Prifysgol Bangor).
**Ymddiheuriadau:** Bev Lewis (Ymddiriedolaeth Natur Brycheiniog) Simon Thorpe (Ymddiriedolaeth Grug), Peter Jones (Cyfoeth Naturiol Cymru), Helen Buckingham (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) Sian Whitehead (Cyfoeth Naturiol Cymru), John Farrar (Prifysgol Bangor)

## 1. CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL O'R CYFARFOD BLAENOROL

**a) Adolygiad o fframwaith yr ucheldiroedd:**
Rhoddodd JS y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp a thrafodwyd y posibilrwydd o ystyried hyn eto gan ddefnyddio Gweunydd Gogledd Cymru fel ardal beilot sy'n cysylltu â chysylltedd mapio ac yng nghyd-destun Bil yr Amgylchedd (polisi ynglŷn ag adnoddau naturiol cenedlaethol a datganiadau rheoli adnoddau naturiol ardal). Hefyd, byddai'n fuddiol ystyried Fframwaith yr Ucheldiroedd mewn perthynas â mynyddoedd Cambria a'r gwaith a wneir drwy Polyscape.
**Camau gweithredu**
**Bydd JS yn trafod â Ruth Jenkins i weld a allwn gytuno ar gyfeiriad i adolygu fframwaith yr Ucheldiroedd yng nghyd-destun polisïau newydd a sicrhau y caiff ei ddefnyddio i lywio gwaith rheoli ucheldiroedd yn y dyfodol.**
**Bydd PH yn gofyn i TP am y diweddaraf ar Polyscape a'i botensial i lywio unrhyw adolygiad o Fframwaith yr Ucheldiroedd yn y dyfodol.**
**Bydd CM yn ystyried Fframwaith yr Ucheldiroedd yng nghyd-destun Gweunydd Gogledd Cymru ar ôl i'r ymrwymiad i'r dull gweithredu gael ei dderbyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru.**

**b) Iechyd mynydd: Adroddiad terfynol wedi'i ddosbarthu gan JS**
Rhoddodd JS y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn treialu gridiau i'w gosod dros ardaloedd o fynydd er mwyn eu gwarchod rhag pori. Bydd JS yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf. Ymhlith y mentrau eraill i reoli pori lle nad yw codi ffens yn opsiwn mae ffensio ddi-ffens (mae Peter Dennis yn ymwneud â threial yng Nghoedwig Epping) a bugeilio agos e.e. yn Hafod y Llan.

**c) Rhaglen waith y Grŵp Ecosystemau Ucheldiroedd**
Dim ond yn achlysurol mae'r rhaglen waith yn cael ei diweddaru. Mae angen rhyw arweiniad gan Fwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru ar bob grŵp ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir o ran blaenoriaethau i'r grwpiau a hefyd brosesau adrodd.
**Cam Gweithredu**
**Bydd JK yn codi cysylltiadau rhwng grwpiau Ecosystemau a Rhywogaethau a Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru a hefyd ofynion adrodd yng nghyfarfod y Cadeiryddion ddydd Iau 20 Tachwedd.**

**d) Gweithdy rhanbarthol – Mynyddoedd Cambria.**
Mae'r ucheldiroedd wedi cael symiau sylweddol o arian drwy'r Gronfa Byd Natur. Awgrymodd CM y dylid trefnu gweithdy i ddwyn ynghyd yr holl grwpiau a'r cydweithrediadau gwahanol sydd wedi cael arian. Gellid gwahodd Partneriaethau Lleol y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hefyd. Y nod o bosibl fyddai cael mwy o eglurhad ynglŷn â phwy sy'n gwneud beth a ble a hefyd geisio cyfleoedd i barhau â gweithgarwch a sbardunwyd gan y Gronfa Byd Natur. Trafodwyd pwysigrwydd gwaith monitro hefyd.
**Cam Gweithredu**
**Bydd CM yn arwain y gwaith o drefnu gweithdy drwy'r Grŵp Ecosystemau Ucheldiroedd ar ôl cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y gall ddarparu cyllideb ac y byddai'n cefnogi'r digwyddiad.**
Cytunwyd ar gofnodion y pedwerydd cyfarfod ar ddeg.
**Cam Gweithredu**
**Bydd JK yn trefnu cyfieithiad ac yn ei anfon at Sean McHugh i'w gyhoeddi ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.**

**2. Y DYSTIOLAETH DDIWEDDARAF**
**U2 – Mae angen gwybodaeth fanylach ynglŷn â sut mae strwythur a chyfansoddid llystyfiant yn effeithio ar helaethrwydd adar ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn yr ucheldiroedd a sut y gellir troi canfyddiadau o'r fath yn ganllawiau rheoli.**
Swyddog Arweiniol – Sian Whitehead
Cytunwyd nad oedd hon yn flaenoriaeth mwyach

**U3 - A ellir adfer cynefinoedd ucheldiroedd drwy bori da byw yn unig neu a oes angen rheoli mecanyddol cyn pori?**
Swyddog Arweiniol – Charles Morgan gyda chymorth Mariecia Frazer
**Cam Gweithredu: Bydd CM yn cwblhau'r cynnig**

**U5 – A yw geneteg ecolegol yn darparu gwybodaeth a fydd yn ein helpu i ddeall yn well pa rywogaethau sydd fwyaf agored i niwed oherwydd darnio cynefinoedd a pha mor bwysig yw amrywioldeb genetig?**
Cam Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol – bydd CM yn siarad â Trevor Dines er mwyn diffinio'n briodol flaenoriaeth y bwlch hwn mewn gwaith ymchwil a'i phennu?
**Cam Gweithredu: Bydd JS yn trafod ymhellach â Barbara Jones (cyn-aelod o Gyngor Cefn Gwlad Cymru)**
Angen eglurhad cyn y gwneir penderfyniad ar y cynnig

**U6 - Diffyg data pendant ar y ffactorau sy'n gyfrifol am ddirywiad y Cwtiad Aur a rhydyddion eraill yr ucheldir.**
Mae'n gysylltiedig ag U2 ac ymdrinnir ag ef yn rhannol yn y cyflwyniad heddiw.
Cytunwyd nad oedd hon yn flaenoriaeth mwyach

**U8 – Mae angen dealltwriaeth gliriach o'r ffordd y gall rhyngweithio rhwng rheoli tir, megis pori gan lysysorion, newid y trothwy dyddodi nitrogen critigol ar gyfer cynefinoedd ucheldir sensitif a ddatblygir gan y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur.**

Mae'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur yn cydgysylltu prosiect ar ran y pedair gwlad sy'n ystyried nodi dangosyddion o niwed oherwydd dyddodi nitrogen mewn llystyfiant. Simon Bareham yw'r swyddog arweiniol yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Efallai y bydd angen datblygu cynnig ar gyfer yr angen hwn am waith ymchwil.
**Cam gweithredu i ailedrych ar y flaenoriaeth hon o ran gwaith ymchwil ar ôl i brosiect y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur gyflwyno adroddiad.**

**U9 – Beth yw'r opsiynau gorau (yn economaidd ac yn amgylcheddol) ar gyfer gaeafu gwartheg mewn ardaloedd sydd â glawiad sy'n uwch na'r cyfartaledd? AILEIRIO**
Swyddog Arweiniol Charles Morgan gyda Mariecia Fraser
**Cam Gweithredu: Bydd CM yn aileirio'r flaenoriaeth hon a llunio'r cynnig gwaith ymchwil.**

**U10 – Faint o waith adfer coetir brodorol sydd ei angen yn yr ucheldiroedd a'u cyffiniau ac o ba ansawdd.**
Caiff penderfyniad ynglŷn â hyn ei ohirio tan y cyfarfod nesaf ac ar ôl i brosiect Ymddiriedolaeth Adareg Prydain/RSPB o dan y Gronfa Ecosystemau Gwydn ar y ffridd gyflwyno adroddiad ar ddiwedd y prosiect.

**U26 – Beth yw'r addasiadau rheoli ucheldir allweddol sydd eu hangen o dan y senarios newid yn yr hinswdd cyfredol gorau.**
Bydd angen gwybod beth yw'r ffactorau na allwn eu rheoli er mwyn helpu i dargedu'r adnodd yn yr hirdymor.
**Swyddog Arweiniol John Farrar**
**Camau Gweithredu - bydd JF yn llunio'r cynnig**

**Proses o gymeradwyo cynigion ymchwil yn derfynol:**
**Caiff pob cynnig ei lunio a'i anfon at Charles Morgan**
**Bydd Charles yn eu dosbarthu er mwyn i'r grŵp wneud sylwadau**
**Ar ôl cytuno arnynt bydd Charles yn eu cymeradwyo'n derfynol ac yn eu hanfon at Tracey Lovering**

**Camau Gweithredu ynglŷn â Thystiolaeth Gyffredinol**
**Bydd JK yn gwahodd RSPB ac Ymddiriedolaeth Adareg Prydain i gyflwyno canfyddiadau'r arolwg o'r ffridd a ariannwyd gan y Gronfa Ecosystemau Gwydn yn ystod cyfarfod nesaf Grŵp yr Ucheldiroedd.**
**Bydd JK yn holi Tracey Lovering ynglŷn â sicrhau adborth i'r Grwpiau Ecosystemau pan gaiff cynnig ymchwil ei ddatblygu. Byddai adroddiadau cryno a/neu nodiadau polisi yn ddefnyddiol – ai rôl i Ganolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru fyddai hyn?**
**Bydd Phil Hollington yn anfon y ddolen we ar gyfer y Rhaglen Economi Wledig a Defnydd Tir**

## 3. CYLLID
Rhoddodd JK y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y ddau brosiect perthnasol o dan y Gronfa Ecosystemau Gwydn a dywedodd mai'r nod oedd cwblhau adroddiad ar y

ddwy flynedd a hanner o flynyddoedd o arian ecosystemau gwydn gan Lywodraeth Cymru a chyhoeddi erthygl yn Natur Cymru.

**Cam Gweithredu: Bydd CM yn ceisio adroddiadau/adborth gan brosiectau Ucheldiroedd a ariennir gan y Gronfa Byd Natur ar gyfer y Grŵp Ecosystemau Ucheldiroedd.**

**4. Diwrnod y Bod Tinwyn**
Cytunodd y grŵp y byddai digwyddiad sy'n ystyried dulliau gwahanol o reoli adar yr ucheldiroedd yn ddefnyddiol o bosibl cyhyd â'i fod yn cynnwys rheoli ystadau ar gyfer saethu yn ogystal ag enghreifftiau gan y sector cadwraeth. Dylai fod yn ddiwrnod ar y cyd â'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad i'w gynnal drwy'r grŵp Ecosystemau Ucheldiroedd.
**Cam Gweithredu: Bydd CM yn datblygu'r syniad ac yn ceisio cymorth gan y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad.**
**Cam Gweithredu: Bydd pawb yn cyflwyno syniadau i CCM er mwyn helpu i ddatblygu'r diwrnod gan gynnwys lleoliadau posibl.**

**5. Yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Adfer Natur – ymateb y grŵp Ecosystemau Ucheldiroedd**
Canolbwyntiodd y grŵp ar yr uchelgais a'r nodau ac yna ar y negeseuon allweddol. Cofnodwyd nifer o syniadau ar siart troi er mwyn llywio'r ymateb.

**Cam Gweithredu:**
**Bydd pawb yn anfon sylwadau ar y cwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad at erbyn dydd Mawrth nesaf (25 Tach)**
**Bydd CM yn llunio'r ymateb ac yn ei ddosbarthu er mwyn cael sylwadau**
**Bydd CM yn paratoi'r fersiwn terfynol ac yn ei gyflwyno erbyn 3 Rhagfyr.**

**Unrhyw Fater Arall**
Phytophera – gofynnwyd i JS am y diweddaraf
Mae JS ac aelodau o'i thîm yn cyfarfod â Phrifysgol Leeds i drafod mapio gwylltiroedd
**Cam Gweithredu - bydd JS yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf**

**Cyrsiau**
Fel y gofynnwyd amdanynt yn y cyfarfod, ceir manylion **dysgu o bell lefel M Prifysgol Bangor** yn http://www.atp-pasture.org.uk/en/
**Gallai modiwlau o ddiddordeb arbennig gynnwys**

- Ucheldiroedd (Ionawr): http://www.atp-pasture.org.uk/en/study-options/distance-learning-modules/upland-farming-systems
- Gwasanaethau ecosystem (Medi 2015): http://www.atp-pasture.org.uk/en/study-options/distance-learning-modules/agro-ecsystems-services-assessment-distance-learning-description
- Rheoli Pridd (Medi 2015) http://www.atp-pasture.org.uk/en/study-options/distance-learning-modules/soil-management

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael rhagor o fanylion rhowch wybod i mi, neu ffoniwch Marty Spittle ar 01970 621562

- Cynhelir cwrs blynyddol **Plas Tan y Bwlch**, '**An Ecosystem Approach for Biodiversity and human well-being'** rhwng 3 a 5 Chwefror 2015. Y gost am y tridiau yw £340 (gan gynnwys llety a phrydau bwyd)

**Camau gweithredu**
**Bydd PH yn dosbarthu gwybodaeth am y modiwlau Meistr (Wedi'i wneud)**
**Bydd JK yn dosbarthu'r rhaglen ar gyfer Plas**

**Dyddiad/lleoliad y cyfarfod nesaf**
**Pwllpeiran Aberystwyth (7, 8, 9 Gorffennaf)**
**Cam Gweithredu - bydd MF yn cadarnhau**

**DRAFFT 21 Tach 2014**